

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Cwm Seren / Uned Diogelwch
Isel (LSU) ac Uned Gofal
Seiciatrig Dwys (PICU)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel
Dda

Dyddiad arolygu: 14, 15, 16
Ionawr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ebrill 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	24
4.	Beth nesaf?	27
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	28
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	31

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl Cwm Seren ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 14, 15 ac 16 Ionawr 2019. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Cwm Seren / Uned Diogelwch Isel (LSU)
- Cwm Seren Uned Gofal Seiciatrig Dwys (PICU)

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth i gleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015). Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl (1983), Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), Deddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom fod Cwm Seren yn darparu gofal effeithiol a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion. Fodd bynnag, roedd gennym bryderon am rannau o'r amgylchedd yn yr Uned Diogelwch Isel a'r Uned Gofal Seiciatrig Dwys, a phriodoldeb ystafell Adran 136.

Mae tystiolaeth o arweinyddiaeth gref ar y ddwy ward a chydberthynas gadarn fel tîm â staff brwdfrydig.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn y ddwy uned yn darparu gofal i gleifion mewn ffordd broffesiynol a pharchus
- Rhoddwyd gwybodaeth gyfredol i gleifion yn ysgrifenedig neu wrth siarad â'r staff
- Gwahoddwyd y cleifion a'r perthnasau i chwarae rôl weithredol wrth benderfynu ar y gofal y maent yn ei dderbyn
- Roedd cydberthnasau therapiwtig amlddisgyblaethol da rhwng y staff a'r cleifion
- Rhoddwyd gofal unigol a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn eu rolau a nodwyd eu bod yn teimlo bod eu cymheiriaid a'r rheolwyr yn eu cefnogi
- Roedd dogfennaeth gyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol
- Roedd strwythurau arwain cadarn ar waith yn y ddwy ward

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai ardaloedd o'r amgylchedd, er mwyn helpu i gynnal diogelwch y cleifion a'r staff, yn ogystal â phreifatrwydd ac urddas y cleifion
- Dylai'r wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion a'r gofalwyr/perthnasau fod yn gyson ar y ddwy ward

Mae angen adolygu rhai meysydd o ran y gwasanaeth a ddarperir
(ystafell Adran 136)

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yng Nghwm Seren, Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Caerfyrddin, SA31 3HB.

Mae dwy uned ar wahân yn y gwasanaeth yng Nghwm Seren:

- Uned Diogelwch Isel (LSU)

Uned i ddynion ag 14 o ystafelloedd en-suite sengl a phedwar gwely gofal llai dwys (cyfanswm o 18 o welyau). Ar adeg yr arolygiad, roedd dwy ystafell yn rhydd yn y brif uned.

- Uned Gofal Seiciatrig Dwys (PICU)

Uned gymysg gydag wyth ystafell en-suite, gyda saith ohonynt yn cael eu defnyddio. (Roedd ystafell ychwanegol yn y fynedfa i'r uned yn cael ei defnyddio fel yr ystafell 136¹, gan ei bod wedi cau dros dro oherwydd aciwtedd y cleifion ar y ward.) Ar adeg yr arolygiad, roedd rhan o'r ward a oedd yn cynnwys tair ystafell wely yn cael ei defnyddio fel ardal wahanu hirdymor ar gyfer tri claf.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 16 o gleifion yn yr Uned Diogelwch Isel a saith claf yn yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys seiciatrydd, dau seicolegydd, cynorthwydd seicoleg, dau therapydd galwedigaethol, dau therapydd galwedigaethol cynorthwyol, nyrsys, gweithwyr cymorth gofal iechyd

¹ Mae ystafell 136 yn fan diogel lle y gall swyddog yr heddlu fynd â pherson yno wedi iddo gael ei dynnu o fan cyhoeddus os caiff ei ystyried fel rhywun sy'n dioddef o anhwylder meddyliol ac mai dyna'r peth gorau ar ei gyfer, neu er mwyn diogelu eraill. Rhaid bod angen gofal a rheolaeth ar frys ar y person a rhaid cynnal asesiad iechyd meddwl. Adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 - Pŵer mewn argyfwng i osod person sydd ag anhwylder meddwl a gaiff ei ystyried fel rhywun sy'n peri iddo ef ei hun neu i eraill, mewn man diogel. Gall man diogel fod mewn unrhyw uned sy'n seiliedig ar iechyd meddwl, ystafell 136 mewn ysbyty seiciatrig, cartref preswyl neu gartref ffrind neu berthynas a phenderfynir ar y lleoliad yn seiliedig ar anghenion unigol.

a staff gwasanaethau gwesty. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys meddyg teulu, fferyllydd, gweithiwr cymdeithasol, tîm iechyd meddwl y gymuned fforensig a'r tîm iechyd meddwl cymunedol. Roedd y tîm hefyd yn gallu cael gafael ar wasanaethau eirioli ac Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA) yn ôl yr angen.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Drwy gydol ein harolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd. Roedd y staff yn gwneud pob ymdrech i gynnal urddas y cleifion ac roedd ystafelloedd en-suite pob claf yn rhoi preifatrwydd ychwanegol iddynt.

Roedd cleifion yn y ddwy uned yn rhoi adborth cadarnhaol ar y gofal roeddent yn ei dderbyn yn yr ysbyty.

Roedd amgylchedd yr uned yn addas ar gyfer y grwpiau cleifion, yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel. Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhywfaint o welliannau i fod o fudd i brofiadau'r cleifion.

Cadw'n iach

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael eu hannog i gynnal ffordd o fyw iach. Roeddem yn fodlon bod y gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth gynyddol o weithgareddau, cymorth a gwasanaethau i hyrwyddo ffordd o fyw iach yn yr Uned Diogelwch Isel ond oherwydd natur yr Uned Gofal Seiciatrïg Dwys, mae argaeledd y gweithgareddau yn seiliedig ar anghenion unigol defnyddwyr y gwasanaeth ar adeg benodol sy'n golygu ei fod yn anoddach cynllunio gweithgareddau.

Mae'r tîm Therapi Galwedigaethol yn cynnal dosbarthiadau bwyta'n iach a choginio i'r holl gleifion.

Ar adeg yr arolygiad, roedd gwaith yn mynd rhagddo ym mhob rhan o'r ardd i drwsio'r ffens a osodwyd yn amhriodol ac hefyd i greu mynediad a reolir i bob rhan o'r ardd. Roedd hyn yn cyfyngu ar ddefnydd y cleifion o ardaloedd yr ardd ond roedd y gwaith yn angenrheidiol i fod o fudd i'r cleifion yn yr hirdymor.

Gwelsom fod yr ardd yn anniben ac nid oedd bin ynddi. Roedd llawer o fonion sigarêts wedi'u taflu ar y llawr. Roedd y patio bach hefyd yn llawn mwsogl ac yn llithrig iawn. Dywedodd y staff wrthym fod un claf wedi llithro ar y dec pren yn ddiweddar ac wedi cael anaf difrifol.

Uned Diogelwch Isel

Gwelsom amrywiaeth o weithgareddau megis bwrdd pŵl, llyfrau, radios personol, setiau teledu a champfa. Dim ond tri aelod o'r staff a oedd wedi cael hyfforddiant i oruchwyllo'r gampfa a dywedodd y cleifion wrthym fod hyn yn golygu bod y defnydd ohoni wedi'i gyfyngu'n fawr am nad oedd y staff ar gael.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael eu hannog i wneud eu hapwyntiadau eu hunain i weld y meddyg teulu a'r deintydd cymunedol lleol. Roedd hi'n gadarnhaol gweld bod y staff hefyd yn helpu'r cleifion i wneud y trefniadau hyn pan oedd angen.

Roedd cyfarfodydd monitro yn cael eu cynnal yn yr uned i drefnu gweithgareddau unigol ac i sicrhau bod unrhyw apwyntiadau ac absenoldeb a awdurdodwyd yn cael eu cynnwys mewn arferion dyddiol.

Ni welsom daflenni gwybodaeth yn hybu iechyd nac yn dangos sut i gynnal ffordd o fyw iach.

Uned Gofal Seiciatrig Dwys

Gwelsom rywfaint o gyngor hybu iechyd ar yr hysbysfwrdd.

Gan fod yr uned wedi'i rhannu ar gyfer y cleifion a wahanwyd yn yr hirdymor, roedd prinder ardaloedd cymunedol ar gyfer y cleifion. Y teledu yn y lolfâ ond hon oedd yr unig un. Nid oedd unrhyw ardaloedd rhyw benodol ar y ward yn unol â chod ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl.²

Dywedodd y cleifion wrthym y gellid defnyddio'r gampfa ond bod y defnydd ohoni wedi'i gyfyngu gan nifer y staff a oedd ar gael i oruchwyllo'r gweithgaredd.

² <https://www.gov.uk/government/publications/code-of-practice-mental-health-act-1983>

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gerddi'r unedau yn lân ac yn ddiogel i'r cleifion i'w defnyddio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff yn gweithio yn yr unedau er mwyn sicrhau y gall y cleifion gymryd rhan mewn gweithgareddau megis defnyddio'r gampfa pan fo'n briodol.

Gofal gydag urddas

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas gan y timau o staff. Maent wedi gosod paneli arsylwi newydd a gaiff eu gweithredu'n allanol ym mhob ystafell wely yn y ddwy uned. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael trafferth yn eu defnyddio gan fod y peirianwaith yn anystwyth. Mae hyn wedi golygu bod y paneli wedi'u cau yn llawn ac mae rhai aelodau o'r staff yn defnyddio'r drws i gynnal arsylwadau yn hytrach na chael trafferth i agor y peirianwaith anystwyth.

Archebwyd mwy o ddolenni i'w defnyddio gan y staff wrth gynnal rowndiau arsylwi.

Uned Diogelwch Isel

Gwelsom fod y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd barchus a chefnogol. Roedd y cleifion yn ymddangos yn gyfforddus yn rhyngweithio â staff o bob gradd. Roedd yr ystafelloedd gwely en-suite unigol wedi'u personoli, gan ystyried diogelwch a lles y cleifion a'r staff.

Roedd yr ardaloedd en-suite wedi'u gwahanu gan ddrysau gwrthglymu math salŵn a oedd yn rhoi preifatrwydd i'r cleifion ond yn galluogi'r staff i arsylwi'n ddiogel.

Roedd yr uned yn lân ac yn daclus. Roedd y nenfydau uchel â ffenestri lefel uchel yn sicrhau bod golau dydd yn y coridorau gan greu awyrgylch llachar a dymunol i'r cleifion.

Roedd nifer o ardaloedd cymunedol yn rhoi digon o le i'r cleifion dreulio amser yn dawel ar eu pen eu hunain y tu allan i'w hystafelloedd gwely.

Gwnaethom nodi bod cyfarfodydd megis y tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd ar y ward. Roedd posibilrwydd y gallai'r cleifion glywed yr hyn a oedd yn cael ei drafod yn yr ystafell hon. Dywedodd y staff

wrthym eu bod wedi gweld rhai cleifion yn sefyll y tu allan i'r ystafell hon yn ceisio gwrando ar y sgysiau y tu mewn.

Uned Gofal Seiciatrig Dwys

Gwelsom fod yr holl staff yn defnyddio enwau cyntaf y cleifion yn unol â'u dymuniadau. Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely en-suite eu hunain a oedd yn cynnwys rhywfaint o eitemau personol yn unol â'r risgiau a nodwyd i'r cleifion.

Roedd yr uned hon yn un gymysg ond ni chafodd ei threfnu yn ardaloedd dynion / menywod. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn broblem gan eu bod yn gallu cloi drysau pob ystafell wely.

Nid oedd ystafell ddydd rhyw benodol. Roedd hyn yn rhannol am fod nifer o lolfeydd yn yr uned yn yr ardal ar gyfer y cleifion a wahanwyd yn yr hirdymor.

Roedd lolfa â theledu, er ei bod yn gymharol fach ac y byddai'n gyfyng ar adegau prysur.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu defnyddio'r paneli arsylwi newydd ym mhob ystafell.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafell ddydd rhyw benodol yn yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys yn unol â chod ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfrinachedd y cleifion ei ddiogelu drwy gynnal trafodaethau a chyfarfodydd mewn ardal lle na all y cleifion glywed.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom ddewis da o wybodaeth i'r cleifion/perthnasau neu'r gofalwyr yn ardal y dderbynfa a'r ystafell ymweld a fyddai'n eu helpu i ddeall diagnosisau iechyd meddwl penodol.

Roedd taflenni gwybodaeth yn y ddwy uned am y cyfleusterau a'r trefniadau a gynigir. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon bod y staff yn cyfathrebu gwybodaeth yn amserol.

Fel rhan o'r broses dderbyn yn y ddwy uned, caiff pob claf a'r perthnasau agosaf wybodaeth am eu hawliau wrth gael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (adran 132 o Ddeddf Iechyd Meddwl) ac roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ba adran o'r ddeddf a oedd yn eu cadw yno, caniatâd i gael triniaeth ac absenoldeb. Cafodd y wybodaeth hon ei thrafod a'i hail-gyflwyno i'r cleifion yn rheolaidd yn ogystal â'i chofnodi yn unol â hynny.

Ni welsom unrhyw enghreifftiau o braille nac arwyddion ar ffurf lluniau i helpu cleifion â gwybodaeth a gwelsom fod yr arwyddion ar y drysau yn gamarweiniol, gan fod rhai ystafelloedd wedi newid ac nad oedd yr arwydd yn cyd-fynd â'r defnydd a wnaed o'r ystafell.

Gwelsom y cleifion o'r ddwy uned yn defnyddio'r gwasanaethau eirioli yn ystod ein harolygiad. Rhoddwyd sicrwydd i ni gan y cleifion a'r staff fod y gwasanaeth hwn yn cael ei ystyried i fod yn un da iawn. Roedd yr eiriolwyr yn aml yn helpu'r cleifion i ddeall a chyfathrebu yn ystod rowndiau ward.

Mae'r amseroedd ymweld yn yr unedau yn hyblyg iawn, cânt eu trefnu ymlaen llaw a gellid addasu hyd yr ymweliad yn seiliedig ar anghenion y cleifion a ffactorau eraill megis pellter teithio'r ymwelwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr arwyddion yn cyd-fynd â'r defnydd a wneir o'r ystafelloedd yn yr unedau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion yn gyson ar y ddwy ward a'i bod yn ddealladwy ac yn briodol i'r grŵp cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob claf wrthym eu bod yn deall yr hyn a oedd yn digwydd o ran eu gofal a bod ganddynt fynediad i'w Cynllun Gofal a Thriniaeth (CTP). Roedd y staff yn mynychu cyfarfodydd amlddisgyblaethol a lle y bo'n briodol, yn gweithio gyda'u prif nyrsys i adolygu a datblygu eu cynlluniau gofal a gweithgarwch.

Roedd holiadur adborth gan gleifion yn ardal y dderbynfa ac roedd sawl ffurflen wedi'i chwblhau yn y blwch. Mae'r wybodaeth yn gyfrinachol a chaiff ei choladu gan reolwyr y wardiau er mwyn helpu i wella profiad y claf yn y ddwy uned.

Roedd swyddfeydd y ddau reolwr ward wedi'u lleoli ar y ward. Roeddent ar gael i siarad â'r cleifion fel y bo'n briodol ac yn annog adborth.

Dywedodd un claf wrthym nad oedd yn teimlo y gallai drafod digwyddiadau yn yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys â'r staff. Ar ôl ymchwilio i hyn ymhellach, gwelwyd bod y materion hyn eisoes wedi'u nodi a bod yr holl brotocolau priodol wedi'u dilyn.

Gofal amserol

Gwelsom dystiolaeth fod gwasanaeth Cwm Seren wedi gwella drwy gyflogi Therapyddion Galwedigaethol, Seicolegwyr a chyflwyno rôl cydlynedd gweithgareddau dyddiol. Caiff hyn ei gwblhau gan Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd enwebedig. Mae'r aelodau newydd hyn o staff yn darparu triniaethau therapiwtig mewn ffordd amserol a chyfannol. Roedd dystiolaeth o weithio'n ddi-dor rhwng y timau cleifion mewnol a phwyslais ar wella a rhyddhau.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu i atal y cleifion rhag gadael yr ysbyty o safon uchel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.

Gallai'r cleifion hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol gyda chynrychiolydd a oedd yn mynychu'r ysbyty yn rheolaidd. Gallai'r cleifion hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA).

Roedd gwasanaeth eirioli hefyd ar gael gyda'r eiriolwr a oedd yn ymweld â'r unedau o leiaf deirgwaith yr wythnos. Dywedodd y cleifion a'r staff wrthym fod y gwasanaeth yn amhrisiadwy.

Roedd mannau addas i'r cleifion gyfarfod ag ymwelwyr mewn preifatrwydd yn y ddwy uned ac roedd trefniadau ar waith i'w galluogi i wneud galwadau ffôn preifat.

Roedd hawl gan y cleifion i ddod ag eiddo personol i'r Uned Diogelwch Isel. Fodd bynnag, roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer yr eitemau cyn iddynt gael eu storio yn ystafelloedd gwely'r unigolion. Gwelsom fod yr eitemau a oedd yn peri risg neu a oedd yn anaddas oherwydd diffyg lle yn yr ystafelloedd gwely, yn cael eu storio mewn cwpwrdd yn yr uned. Cafodd yr eitemau hyn eu labelu a'u nodi. Roedd ganddynt goffor diogel i gadw ffonau symudol hefyd. Roedd yr ystafell a ddefnyddiwyd i'w storio yn orlawn.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y staff yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion yn y ddwy uned. Roedd prosesau ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion wrth iddynt dderbyn gofal sy'n gwella gan dîm o staff a gaiff ei reoli'n dda ac sy'n llawn cymhelliant.

Gwelsom fod angen trwsio rhannau o'r ddwy uned er mwyn darparu amgylchedd diogel i'r staff a'r cleifion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd prosesau ar waith i reoli risg a chynnal iechyd a diogelwch. Roedd y ddwy uned yn rhoi gofal cleifion wedi'i bersonoli a oedd wedi'i gefnogi gan brosesau cymryd risgiau cadarnhaol rheoledig, o ran arferion ward a chynllunio gofal.

Roedd holl ardaloedd y cleifion wedi'u lleoli ar lawr gwaelod yr ysbyty ac roeddent yn hawdd i'w cyrraedd o'r brif fynedfa ddynodedig, gan gynnwys i'r bobl â phroblemau symudedd.

Gwelsom nad oedd unrhyw oleuadau yn y brif dderbynfa o'r tu allan ac roedd to gwydr y drysau yn wyrdd gydag algâu. Roedd y palmant y tu allan i'r uned yn anwastad, ac roedd hyn yn ogystal â'r diffyg goleuadau yn cyflwyno perygl sylweddol i'r cleifion, yr ymwelwyr a'r staff.

Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym fod angen iddynt gerdded allan o'r adeilad yn rheolaidd ar ôl iddi dywyllu i gasglu cleifion ar absenoldeb a awdurdodwyd. Roedd y diffyg goleuadau yn ei gwneud hi'n anodd ac yn anniogel.

Roedd gan y staff yn y ddwy uned larymau personol i alw am gymorth os oedd angen. Gosodwyd y system hon ers ein harolygiad blaenorol. Roedd pob aelod o'r staff ar y ddwy ward yn cael eu hysbysu o ddigwyddiad ac roedd y larwm yn dangos ym mha ystafell yn yr uned y gwnaeth ddigwydd. Roedd prosesau llym ar waith er mwyn ymateb i ddigwyddiad a gaiff ei hysbysu.

Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau yn y ddwy uned yn briodol i'r priod grwpiau cleifion. Fodd bynnag, roedd rhannau mawr o'r llawr wedi'u selio â thâp llwyd a oedd yn ymddangos fel petai wedi bod yno ers peth amser. Roedd rhannau o'r llawr yn yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys, yn enwedig yn yr ardal ar gyfer y cleifion a wahanwyd yn yr hirdymor, wedi'u rhwygo'n llwyr gan y cleifion ac roedd angen gosod llawr newydd yno. Roedd y carpedi yn y swyddfeydd wedi'u staenio'n wael ac yn frwnt. Roedd yr arwynebau gwaith yn y swyddfeydd wedi'u difrodi ac roedd yr argaen yn pilio oddi ar y pren. Roedd sawl ochr finioig yn peri risg i'r staff a oedd yn gweithio yn yr ardal honno.

Yn gyffredinol, nid oedd cynllun yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys wedi'i anelu at fod yn ardal gofal dwys ac mae'n parhau i fod yn broblem. Roedd rhan o'r Uned Gofal Seiciatrig Dwys yn cael ei defnyddio ar gyfer y cleifion a wahanwyd yn yr hirdymor. Gwnaethom hefyd godi pryderon yn ymwneud â phriodoldeb yr amgylchedd at y diben hwn.

Yn ystod ein harolygiad, roedd ystafell Adran 136 wedi cau dros dro oherwydd aciwtedd ac anghenion dwys rhai cleifion yn yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys o ran adnoddau. Mae angen adolygu lleoliad a chyfleusterau ystafell 136 er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal priodol mewn amgylchedd addas. Mae'r ystafell wedi'i lleoli wrth ymyl y dderbynfa y tu ôl i ffenestr fawr. Nid yw hyn yn rhoi llawer o breifatrwydd i gleifion sy'n aros am asesiad. Mae'r ystafell yn yr un ardal â'r ystafell ymweld. Dywedodd y cleifion a'r staff wrthym fod ymweliadau'n cael eu gohirio'n rheolaidd gan fod ystafell 136 yn cael ei defnyddio.

Roedd ystafell gelf a chreffft yn llawn adnoddau yn yr Uned Diogelwch Isel ac roedd ganddynt weithdrefnau diogel ar gyfer defnyddio cyfarpar a sylweddau a allai fod yn beryglus. Roeddent yn cael eu cadw dan glo yn briodol.

Gwelsom lawer o becynnau cymorth cyntaf yn y ddwy uned. Roeddent wedi'u stocio'n llawn ac o fewn eu dyddiadau defnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod goleuadau'n cael eu gosod y tu allan i brif dderbynfa'r uned er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried glanhau'r to gwydr uwchben y drysau blaen.

Rhaid i'r bwrdd iechyd drwsio neu newid y llawr sydd wedi'i ddifrodi yn yr uned gyfan gan fod hyn yn peri risg i ddiogelwch y cleifion.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried newid y carped a'r arwynebau gwaith yn swyddfeydd y staff. Mae'r rhain yn peri risg o ran diogelwch a rheoli heintiau i'r staff a'r cleifion.

Atal a rheoli heintiau

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod yr ysbyty yn lân ac nad oedd unrhyw annibendod. Yr unig eithriad yn hyn o beth yw'r carpedi yn swyddfeydd y staff. Roeddent yn amlwg yn frwnt ac roedd angen eu newid. Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol.

Roedd staff domestig y bwrdd iechyd yn cwblhau amserlenni glanhau manwl yn y ddwy uned. Yn ogystal â hyn, anogwyd y cleifion yn yr Uned Diogelwch Isel i lanhau eu hystafelloedd eu hunain a'r ardaloedd cymunedol fel rhan o'u rhaglen adsefydlu.

Gwelsom fod cynhyrchion hylendid dwylo mewn ardaloedd perthnasol yn yr unedau ac arddangoswyd gwybodaeth am eu pwysigrwydd. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol i atal a rheoli heintiau a dihalogi ar gael i'r staff yn ôl y gofyn.

Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gyfer y ddwy uned. Roedd yr ystafelloedd golchi a'r cypyrddau llieiniau yn drefnus. Anogwyd y cleifion yn yr Uned Diogelwch Isel a'r Uned Gofal Seiciatrig Dwys i olchi eu dillad eu hunain fel rhan o'u gwellhad a'u hannibyniaeth.

Maeth a hydradu

Roedd prydau bwyd yn cael eu darparu ar gyfer cleifion yn yr ysbyty a oedd yn cynnwys brecwast, cinio, pryd o fwyd gyda'r nos a swper. Mae'r cleifion yn dewis eu prydau bwyd o fwydlen yr ysbyty. Roedd y ddwy uned yn cynnal amseroedd bwyd wedi'u diogelu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth yn tarfu ar y cleifion yn ystod eu prydau. Roedd y cleifion hefyd yn gallu cael gafael ar ffrwythau ffres a byrbrydau yn ogystal â diodydd poeth ac oer.

Gwelsom rai prydau ac roeddent yn ymddangos yn faethlon ac yn flasus. Roedd y cleifion yn feirniadol o'r prydau roeddent yn eu derbyn yn ystod ein trafodaethau. Roeddent yn cwyno yn bennaf am y diffyg amrywiaeth o brydau yn ystod yr wythnos a'r dewisiadau dyddiol cyfyngedig. Cadarnhaodd y staff fod dewisiadau amgen i'r prydau gosodedig ar gael a'u bod yn gwneud ymdrech i sicrhau bod y cleifion yn derbyn y bwyd o'u dewis.

Gwelsom fod y staff yn bwyta eu cinio a'u swper gyda'r cleifion hefyd er mwyn sicrhau y gellid cynnal sgysiau anffurfiol ac arsylwi ar y bwydydd a'r diodydd y maent yn eu cael. Er hyn, roedd prinder cadeiriau ystafell fwyta ac felly roedd angen i rai cleifion aros nes i'r cleifion eraill orffen er mwyn eistedd i fwyta prydau.

Roedd cegin therapi galwedigaethol yn yr Uned Diogelwch Isel lle y gallai'r cleifion baratoi eu prydau a'u diodydd eu hunain mewn amgylchedd a oruchwyliwyd. Roedd gan y cleifion eu cypyrddau a'u hardaloedd eu hunain yn y rhewgell-rewgistiau i gadw'r bwyd a brynwyd tra roeddent allan o'r ysbyty.

Gwelsom fod sawl oergell yn yr unedau a oedd yn cynnwys amrywiaeth o fwyd. Gwelsom fod dyddiadau ar y bwydydd darfodus er mwyn sicrhau y cânt eu defnyddio cyn y dyddiad defnyddio, er bod un eitem wedi mynd heibio'r dyddiad. Gwnaethom ofyn am gael gweld y cofnod o dymereddau'r oergell fel y gellid rhoi sicrwydd i'r staff bod y bwyd yn cael ei storio ar y tymheredd cywir. Dywedwyd wrthym nad oedd y tymereddau hyn yn cael eu cofnodi'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar y cyfarpar yn y gegin a gwelsom fod angen glanhau'r popty yn drylwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gyfleusterau er mwyn bod digon o gyfleusterau i'r cleifion fwyta prydau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod bwyd sydd wedi mynd heibio eu dyddiadau yn cael eu tynnu o'r oergelloedd.

Dylai'r bwrdd iechyd gyflwyno system atebolrwydd ar gyfer cynnal a chadw'r oergelloedd yn yr uned gan gynnwys gwirio tymereddau yn rheolaidd.

Rheoli meddyginiaethau

Yn gyffredinol, roedd y gwaith o reoli meddyginiaethau yn y ddwy uned yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd yr Uned Diogelwch Isel wedi gosod system rhoi meddyginiaeth electronig newydd. Yn ystod yr arolygiad, roedd rhwydwaith wi-fi yn cael ei osod er mwyn gallu defnyddio'r system newydd hon a hyfforddi staff i'w defnyddio.

Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel gyda chypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth dan glo. Roedd mewnbwn rheolaidd gan y fferyllfa iechyd meddwl ac roedd meddyginiaethau'n cael eu harchwilio a oedd yn helpu'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth yn y ddwy uned.

Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd.

Roedd trefniadau ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau a all gael eu camddefnyddio, a rhoddwyd cyfrif cywir am y rhain a'u gwirio bob dydd.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai adrannau o'r cofnodion yn cynnwys enwau'r cleifion. Er bod lle ar ei gyfer, nid oedd rhai ohonynt yn nodi statws Deddf Iechyd Meddwl y claf. Cafwyd un achlysur lle nad oedd y clinigydd cofrestredig wedi llofnodi newid mewn dogn, er y cafodd ei roi'n gywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob adran o'r Siartiau Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff ar y ddwy ward yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn cael ei roi ar waith yn ystod ein harolygiad.

Roedd hawl gan blant i ymweld â'r unedau drwy apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Roedd ystafell briodol a oedd yn cynnwys llyfrau a theganau y tu allan i'r uned lle y gallai'r cleifion gyfarfod ag aelodau ifanc o'r teulu.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn gyffredinol, nodwyd gennym bod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn y ddwy uned yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion

Cadw cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn electronig ac yn cynnwys cyfrineiriau. Roedd y system yn ymddangos yn drefnus ac yn hawdd ei defnyddio ac roedd dogfennau amlddisgyblaethol yn cael eu cadw mewn un lle. Roedd cofnodion a dogfennau papur yn cael eu sganio i'r system. Gwelsom wybodaeth fanwl o ansawdd da am yr holl gynlluniau gofal a thriniaeth yn y ddwy uned.

Roedd yn amlwg bod y staff ar y ddwy ward yn asesu ac yn monitro llesiant y cleifion yn dda. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn gynhwysfawr. Roedd asesiadau iechyd corfforol yn cael eu cynnal wrth dderbyn cleifion a chawsant eu monitro'n barhaus. Gwelsom ddefnydd da o adnoddau asesu therapi galwedigaethol ac iechyd meddwl cydnabyddedig yn ogystal ag ymarfer clinigol yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd pob achos o ymyrryd ar gleifion yn briodol i ddiwallu eu hanghenion unigol a nodwyd manylion clir ohonynt yn y cofnodion. Roedd tystiolaeth o adolygu asesiadau a chynlluniau gofal yn rheolaidd.

Roedd adran i gofnodi unrhyw anghenion a nodwyd a oedd heb eu diwallu a rôl y teulu/gofalwyr, er na chafodd hyn ei gwblhau bob amser. Ni chafodd capasiti'r cleifion i gydsynio i'r cynllun gofal ei gofnodi chwaith.

Gwelsom nad oedd asesiad cynhwysfawr ar gyfer anghenion y cleifion a oedd yn cynnwys y meini prawf a nodir yn y Mesur Iechyd Meddwl i lywio'r cynlluniau gofal.

Roedd y bwrdd statws cleifion yn swyddfeydd nyrsio'r ddwy uned yn darparu gwybodaeth glir a chyflym. Gorchuddiwyd y byrddau i gadw cyfrinachedd pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion na chaiff eu diwallu yn cael eu nodi a'u cofnodi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff capasiti'r cleifion i gydsynio ei gofnodi yn y cynlluniau gofal.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal yn cynnwys asesiad o anghenion y cleifion er mwyn adlewyrchu'r meini prawf a nodir yn y Mesur Iechyd Meddwl.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol chwe chlaf mewn dwy ward, tri o'r Uned Gofal Seiciatrig Dwys a tri o'r Uned Diogelwch Isel.

Roedd yn amlwg bod y cyfnodau cadw wedi cael eu cymhwyso a'u hadnewyddu yn unol â gofynion y Ddeddf.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion yn unol ag Adran 58 o'r Ddeddf, Cydsynio i Driniaeth. Lle y defnyddiwyd Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD), cwblhawyd cofnod o'r drafodaeth â'r ymgylgoreion statudol a chafodd ei gadw gyda dogfennaeth SOAD.

Roedd tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu storio gyda'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth. Golygai hyn fod y staff a oedd yn rhoi'r feddyginiaeth yn gallu cyfeirio at y dystysgrif er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth wedi'i rhagnodi o dan ddarpariaethau cydsynio i driniaeth adran 58 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd tîm gweinyddu deddf iechyd meddwl y bwrdd iechyd yn sicrhau bod cleifion yn derbyn eu hawliau statudol o dan y Ddeddf, gan gynnwys apelio yn erbyn y penderfyniad i'w cadw. Roedd tystiolaeth bod y cleifion yn cael cefnogaeth gan y gwasanaeth eirioli.

Nodwyd gennym hefyd bod pob achos o ryddhau cleifion dros dro o'r ysbyty wedi cael ei awdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni Rhyddhau Adran 17. Roedd y ffurflenni hyn yn fanwl ac wedi'u cwblhau'n llawn.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal pum claf i gyd. Tri claf o'r Uned Diogelwch Isel a dau o'r Uned Gofal Seiciatrig Dwys.

Gwelwyd tystiolaeth bod cydgysylltwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion a, lle y bo'n briodol, fod aelodau o'r teulu yn rhan o'r trefniadau cynllunio gofal.

Roedd amrywiaeth o asesiadau risg a oedd yn amlygu'r risgiau a nodwyd a sut i'w rheoli a'u lliniaru yn y ddwy uned. Roedd asesiadau iechyd corfforol da a gwaith monitro wedi'i gofnodi yn nodiadau'r cleifion hefyd.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwelsom nad oedd asesiad cynhwysfawr ar gyfer anghenion y cleifion a oedd yn cynnwys y meini prawf a nodir yn y Mesur Iechyd Meddwl i lywio'r cynlluniau gofal.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Nid oedd unrhyw gleifion yn cael eu cadw o dan y DoLS yn ystod ein harolygiad.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd tystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth gadarn yn y ddwy uned gan roi hyder i'r staff gyflawni eu rolau hyd eithaf eu gallu.

Roedd yn amlwg bod pwyslais ar hunan-ddatblygu a chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.

Gwelsom gydberthynas gadarn fel tîm ac roedd y staff yn ymfalchïo yn y gwasanaethau a ddarperir.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod y ddwy uned yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd problemau gydag adran ystadau'r bwrdd iechyd o hyd, a dywedodd y staff fod amseroedd aros hir i'w datrys. Roedd y staff eisoes wedi rhoi gwybod am yr holl bryderon amgylcheddol a nodir yn yr adroddiad hwn i'r ystadau ond nid ydynt wedi'u datrys o hyd.

Roedd rheolwyr yr uned yn defnyddio dulliau arwain ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael eu cefnogi gan dimau ymrwymedig, timau amlddisgyblaethol cadarn ac uwch reolwyr y bwrdd iechyd a oedd yn dod i'r unedau yn rheolaidd. Nodwyd gennym fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a ddarparwyd gan reolwr yr Uned Diogelwch Isel a rheolwr yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys. Dywedodd y staff fod gwaith tîm a morâl y staff yn y ddwy

uned yn dda iawn. Gwelsom gydbberthynas gadarn fel tîm ac roeddent yn ymfalchïo yn y gwasanaethau y maent yn ceisio ei ddarparu.

Roedd pwyslais cryf ar ddatblygu staff ac roedd y ffaith bod rhai gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cael cefnogaeth i ennill cymwysterau nyrsio yn dystiolaeth o hyn. Roedd hi'n galonogol gweld bod yr uned yn cynnal prosiect sy'n cefnogi iechyd a lles y staff.

Roedd y ddwy uned yn ceisio darparu gofal ar lefel uchel i'r grwpiau cleifion er mwyn cyflymu'r broses o wella a lleihau'r amser a dreulir yn yr ysbyty. Cefnogwyd hyn gan gydweithio agos a chynhyrchiol gyda'r tîm iechyd meddwl fforensig a'r timau iechyd meddwl cymunedol perthnasol.

Roedd adborth y cleifion ar y gofal a dderbyniwyd yn y ddwy uned yn gadarnhaol iawn.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn y ddwy uned yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion. Daeth rheolwyr y ddwy ward i'r uned i'n helpu gyda'r arolygiad yn syth ar ôl cyrraedd y safle'n ddirybudd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses uwchgyfeirio gadarn ar waith ar gyfer ceisiadau am ystadau yn yr uned.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd y ddwy ward wedi creu timau a oedd yn dangos gwaith tîm da. Fodd bynnag, roedd swyddi gwag ar gyfer nyrsys cymwysedig a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn yr Uned Diogelwch Isel; roedd yn gadarnhaol bod rheolwyr yr uned wedi cadarnhau eu bod wedi cael ymateb da i'r broses recriwtio ddiweddar. Roedd sawl cyfweiliad yn cael eu cynnal yr wythnos honno.

Adolygwyd y broses o gael staff banc / asiantaeth ers ein harolygiad diwethaf ac roedd yn haws ei dilyn ac yn llai biwrocraidd erbyn hyn.

Gwelsom fod y ddwy ward yn cydymffurfio'n dda ag arfarniadau staff. Roedd sesiynau goruchwyllo clinigol a rheoli yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer yr holl staff.

Roedd rhaglen o hyfforddiant gorfodol ar waith â lefel dda o gydymffurfiaeth. Roedd rheolwyr yr uned yn gyfrifol am sicrhau bod y staff yn cydymffurfio a bod y system gofnodi ac archwilio yn gyfredol. Gwnaed gwelliannau sylweddol i reoli cydymffurfiaeth hyfforddiant. Roedd pob aelod o'r staff yn gallu defnyddio'r systemau e-ddysgu yn swyddfa'r ward a rhoddwyd amser iddynt wneud hynny.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys. Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Uned Iechyd Meddwl Cwm Seren

Ward/uned(au): Uned Diogelwch Isel / Uned Gofal Seiciatrig Dwys

Dyddiad arolygu: 14 15 16 Ionawr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Iechyd Meddwl Cwm Seren

Ward/uned(au): Uned Diogelwch Isel / Uned Gofal Seiciatrig Dwys

Dyddiad arolygu: 14 15 16 Ionawr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gerddi'r unedau yn lân ac yn ddiogel i'r cleifion i'w defnyddio. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff yn gweithio yn yr unedau er mwyn sicrhau y gall y cleifion gymryd rhan mewn gweithgareddau megis defnyddio'r gampfa pan fo'n briodol.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Contract tiroedd ar waith. Bydd Sefydliad Llafur Uniongyrchol yn gwneud trefniadau gyda'r staff i ymgymryd â'r gwaith o osod sodiwm hypoclorit/lladdwr mwsog i ddileu problemau.	Rheolwr Gweithrediadau Safle Cynorthwyol / Swyddog Adeiladu	30/04/19
		Uned Diogelwch Isel i roi rota gweithgareddau wedi'i gynllunio ar waith sy'n cynnwys mynediad i'r Gampfa.	Rheolwr y Ward a Therapydd Galwedigaethol	30/06/19
		Y gofynion staffio i gefnogi'r rota gweithgareddau i'w hystyried wrth	Rheolwr y Ward	30/06/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gynllunio'r rota dyletswyddau.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu defnyddio'r paneli arsylwi newydd ym mhob ystafell.	4.1 Gofal ag Urddas	Diffygion cudd yn dilyn eu gosod – yr adran ystadau i gysylltu â'r contractwr/gwneuthurwr i ddatrys y diffygion.	Rheolwr Gweithrediadau Safle Cynorthwyol	30/06/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafell ddydd rhyw benodol yn yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys yn unol â chod ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl.		Nodi lle ar gyfer lolfeydd rhyw benodol.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
		Archebu teledu ar gyfer y lolfaf newydd i fenywod.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
		Ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb prosiect ar gyfer seinglosio'r ystafelloedd a ddefnyddir ar hyn o bryd gan nad oes llety amgen ar gael.	Rheolwyr Wardiau Ystadau a Rheolwr Busnes Iechyd Meddwl Oedolion	30/05/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfrinachedd y cleifion ei ddiogelu drwy gynnal trafodaethau a chyfarfodydd mewn ardal lle na all y cleifion glywed.		E-bostio gwybodaeth i staff i'w hatgoffa o'r angen i gadw cyfrinachedd.	Rheolwyr Wardiau	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr arwyddion yn cyd-fynd â'r defnydd a wneir o'r ystafelloedd yn yr unedau.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Adolygu'r defnydd a wneir o ystafelloedd a'r arwyddion presennol.	Rheolwyr Wardiau	30/04/19
		Costio unrhyw arwyddion newydd sydd eu hangen.	Rheolwr Busnes	31/05/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion yn gyson ar y ddwy ward a'i bod yn ddealladwy ac yn briodol i'r grŵp cleifion		Cyflwyno cais am gyllid i brynu arwyddion sydd eu hangen i Grŵp Perfformiad Busnes a Sicrwydd Cynllunio Iechyd Meddwl/Anableddau Dysu.	Uwch-nyrs	30/06/19
		Rhoi system ar waith i adolygu a diweddarau gwybodaeth i gleifion yn rheolaidd.	Rheolwyr Wardiau Cymorth gweinyddol	31/05/19
		Caiff unrhyw ofynion cyfathrebu ychwanegol eu nodi wrth dderbyn y cleifion drwy'r rhestr wirio.	Rheolwyr Wardiau	31/05/19
	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol			
	5.1 Mynediad amserol			
	6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth			
	6.2 Hawliau pobl			

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	6.3 Gwrandio a Dysgu o Adborth			
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod goleuadau'n cael eu gosod y tu allan i brif dderbynfa'r uned er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried glanhau'r to gwydr uwchben y drysau blaen. Rhaid i'r bwrdd iechyd drwsio neu newid y llawr sydd wedi'i ddifrodi yn yr uned gyfan gan fod hyn yn peri risg i ddiogelwch y cleifion. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried newid y carped a'r arwynebau gwaith yn swyddfeydd y staff. Mae'r rhain yn peri risg o ran diogelwch a rheoli heintiau i'r staff a'r cleifion.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Goleuadau newydd i gael eu gosod y tu allan i'r brif fynedfa. Angen trefnu bod y to gwydr yn cael ei lanhau. Cyflwyno Cais Cyfalaf o £10,000 i newid y llawr. Cyflwyno Cais Cyfalaf o £7,750 i atgyweirio swyddfeydd y staff.	Rheolwr Gweithrediadau Safle Cynorthwyol / Swyddog Adeiladu Rheolwr Gweithrediadau Safle Cynorthwyol / Swyddog Adeiladu Rheolwr Gweithrediadau Safle Cynorthwyol / Swyddog Adeiladu	30/04/19 30/04/19 Os caiff y Cyfalaf ei gymeradwyo, ac os bydd ar gael Os caiff y Cyfalaf ei gymeradwyo, ac os bydd ar gael

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Rheolwr Gweithrediadau Safle Cynorthwyol / Swyddog Adeiladu	
	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi			
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gyfleusterau er mwyn bod digon o gyfleusterau i'r cleifion fwyta prydau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod bwyd sydd wedi mynd heibio eu dyddiadau yn cael eu tynnu o'r oergelloedd. Dylai'r bwrdd iechyd gyflwyno system atebolrwydd ar gyfer cynnal a chadw'r	2.5 Maeth a Hydradu	Ymgymryd ag adolygiad o'r holl ofynion amgylcheddol a dodrefn ar y ddwy uned a chyflwyno cais cyfalaf yn ôl yr angen. Aelod o'r staff sydd wedi'i neilltuo ar gyfer dyletswydd amser cinio i fod yn gyfrifol am gynnal gwiriadau i gael gwared â bwyd sydd wedi mynd heibio eu dyddiadau o'r oergell. Prynu thermomedrau ar gyfer yr oergell. Rheolwr y ward i gytuno ar system	Rheolwr y Ward / Rheolwr Busnes Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	30/06/19 Cwblhawyd 30/06/19 30/06/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
oergelloedd yn yr uned gan gynnwys gwirio tymereddau yn rheolaidd.		atebolrwydd ar gyfer cynnal oergelloedd gyda gwasanaethau gwesty.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob adran o'r Siartiau Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Staff meddygol i gael eu hatgoffa drwy femorandwm a chyfarfod tîm i gwblhau pob adran o'r siart meddyginiaeth gyda'r staff nyrsio a fferyllfa yn tynnu sylw at unrhyw fylchau i'r aelod meddygol o dan sylw. Y fferylllydd i wirio bod pob adran yn cael ei chwblhau'n gywir pan fydd ar y ward, yn ogystal ag ymgymryd ag archwiliad misol o'r holl Siartiau Rhoi Meddyginiaeth.	Clinigydd Cyfrifol/ Rheolwr y Ward/ Fferylllydd Fferylllydd	Cwblhawyd Cwblhawyd
	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed			
	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol			

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol			
/	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi			
	3.4 Technoleg Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu			
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion na chaiff eu diwallu yn cael eu nodi a'u cofnodi.	3.5 Cadw cofnodion	Datblygu system i nodi a chofnodi anghenion nas diwallwyd.	Rheolwr y Ward/ Rheolwr Gwasanaeth	30/09/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff capasiti'r cleifion i gydsynio ei gofnodi yn y cynlluniau gofal.		Datblygu a threialu proses uwchgyfeirio.	Rheolwr y Ward/ Rheolwr Gwasanaeth	31/03/20
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal yn cynnwys asesiad o anghenion y cleifion er mwyn adlewyrchu'r meini prawf a nodir yn y Mesur Iechyd Meddwl.		Cyfarfod â'r arweinydd Cynllun Gofal a Thriniaeth a'r arweinydd Galluoedd Meddyliol i drafod a chytuno ar broses asesu.	Rheolwr y Ward	30/06/19
		Adolygu dogfennaeth Partner Gofal er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys y	Rheolwr y Ward/	31/03/20

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		meini prawf a nodir yn y Mesur Iechyd Meddwl. Cydymffurfio ag archwiliadau drwy archwiliadau Cynllun Gofal a Thriniaeth sy'n cael eu monitro drwy'r Grŵp Craffu ar Ddeddfwriaeth Iechyd Meddwl.	Uwch-nyrs Tîm Ansawdd Rheolwr y Ward/ Uwch-nyrs Tîm Ansawdd	31/03/20
	Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl			
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses uwchgyfeirio gadarn ar waith ar gyfer ceisiadau am ystadau yn yr uned.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Adolygu'r broses uwchgyfeirio bresennol a'i diwygio yn unol â hynny	Rheolwr y Ward Uwch-nyrs Ystadau	31/05/19
	7.1 Y Gweithlu			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sara Rees

Teitl swydd: Pennaeth Gwasanaeth, Iechyd Meddwl Oedolion

Dyddiad: 27/03/19